

Gwers 4 – Glaw, glaw a mwy o law

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Genesis 8:1 – 9:17

Wedi'r Creu, edrychodd Duw ar ei greadigaeth gydag optimistiaeth, gobaith a boddhad, oherwyddroeddy cyfanyn dda. Yn dilyn y Cwmp rhoddodd Duw ddechreuad arall i'r byd ond erbyn amser Noa, roedd y gwrthwyneb yn wir; cynyddodd drygioni ac yr oedd dynoliaeth yn golledig. Tra'r oedd Adda ac Efa wedi syrthio i demtasiwn o'r tu allan, 'roedd pobl yn ildio i demtasiynau o'u mewn. Penderfynodd Duw ddileu dynoliaeth a dechrau eto. Roedd un dyn cyfiawn, Noa, ac o'r holl greadigaeth byddai ef a'i deulu'n cael eu cadw.

Pan oedd Noa yn 480 mlwydd oed, hysbysodd Duw ef o'i fwriad i ddileu dyn oddi ar wyneb y ddaear, ac yn ei drugaredd byddai yn caniatáu cyfnod o ras o 120 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd Noa i adeiladu arch ar gyfer ei achub ef a'i deulu, ei wraig, a'u tri mab a'u gwraeged, a dewisiad cynrychioladol o anifeiliaid.

'...rhwygwyd holl ffynhonnau'r dyfnder mawr ac agorwyd ffenestri'r nefoedd, felybu'n glawio am ddeugain niwrnod a deugain nos.' Yn ôl Genesis, bu'r dŵr yn gorchuddio'r ddaear am 371 niwrnod cyn i Noa benderfynu ei bod yn amser iddo ef a'i deulu i adael yr arch. Erbyn hyn roedd digon o fwyd ar gyfer yr anifeiliaid (Genesis 8:8 -11). Yna, adeiladodd Noa allor ac offrymu poethoffrymau i Dduw. 'Pan glywodd yr Arglwydd yr arogl hyfryd, dywedodd ynddo'i hun "ni felltithiaf y ddaear mwyach o achos dyn.' (Genesis 8:21).

Ar ôl y dilyw, gwnaeth Duw gyfamod neu addewid i Noa; addawodd Duw na fyddai byth eto'n anfon dilyw. Yna rhoddodd Duw awdurdod i Noa a'i feibion dros y ddaear ac i ofalu am bopeth oedd ynddi. Cymharer Genesis 1:28 – 30. Nodir y cymod hwn rhwng Duw a'i greadigaeth gan arwydd, 'gosodaf fy mwa yn y cwmwl, a bydd yn arwydd o'r cyfamod rhyngof a'r ddaear.' (Genesis 9:13).

A oedd Y Dilyw'n gorchuddio'r byd i gyd?






Cred rhai ei fod, ac mai'r rhywogaethau yn yr Arch yn unig a gadwyd. Gorchuddiwyd popeth, yn cynnwys mynyddoedd gan y dyfroedd.

Cred eraill mai ardal, y Dwyrain Canol, yn unig, a orchuddiwyd.

Heb os, 'roedd Y Dilyw yn ddigwyddiad cataclysmig; difodwyd dynoliaeth ar wahân i un teulu gyda'r diben o barhau pwrpas Duw. Yn y cyfieithiad Groeg, Deg a Thrigain, cyfeithir y gair Hebraeg mabbûl a ddefnyddir yma, yn kataklysmos.

Ceir adroddiadau am ddilyw o fewn diwylliannau hynafol eraill, megis Swmeria, Assyria a Babilon. Mae adroddiad Swmeriaidd tua 2000 CC yn sôn am frenin yn cael rhybudd gan y duwiau am ddilyw yn agosáu ac yn adeiladu cwch er mwyn dianc.

Pwynt y digwyddiad hwn yw dangos fod Duw'n achub y rhai oedd yn ffyddlon iddo. Yn dilyn achubiaeth Noa a'i deulu, sicrhawyd parhad y ddynoliaeth ar y ddaear.



Mae'r chwe llun yma yn adrodd stori Noa.
Rhifa'r lluniau yn y drefn gywir.

Cei ddarllen y stori hon ym mhennod 6-9, Genesis.

Gwers 4 – Glaw, glaw a mwy o law

Noa a'r dilyw mawr | Genesis 7, 8

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 22



Gwers 4

Glaw, glaw a mwy o law

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed.

Glaw, glaw a mwy o law tud 22

BEIBL LLIW STORI DUW

Y dilyw mawr tud 17

Yr enfys tud 17

BEIBL BACH STORI DUW

Dechrau Newydd tud 38

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Addewid Arbennig tud 12

BEIBL LLIW Y PLANT

Y Dilyw tud 26

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Noa a'r dilyw mawr tud 23

Noa a'r enfys tud 24

BEIBL BACH I BLANT

Glaw, Glaw, Glaw! tud 28

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Glaw, glaw, glaw! tud 19

Dechrau newydd tud 20

Enfys yn yr awyr tud 21

BEIBL LLIW Y TEULU

Y Dilyw Mawr tud 59

Yr Enfrys tud 60

I ddechrau

Gêm: Creu'r pwll dŵr mwyaf

Byddangensgwariau obapur neu gerdynglas (maint oddeutu 3cmx3cm). Cynhaliwch gwis syml gan rannu'r dosbarth yn 2 dîm. Gall y cwestiynau fod yn rhai Beiblaidd (yn adolygu hanes y Creu a dechrau stori Noa efallai) neu yn gwestiynau cyffredinol. Am bob ateb cywir rhowch ddarn o ddŵr i'r tîm. Pwy fydd â'r pwll dŵr mwyaf ar ddiwedd y cwis?

Yr Hanes

Nid pwll bach o ddŵr a welwyd adeg Noa – bu'r glaw yn disgyn am 40 o ddyddiau a 40 o nosweithiau.

Dangoswch galendr. Nodwch ddyddiad heddiw a chyfrif ymlaen 40 diwrnod a 40 nos. Gofynnwch i'r plant ddychmygu dim ond glaw trwm hyd at.....(y dyddiad ymhen 40 diwrnod a nos)!!

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Defnyddiwch y Llinell Amser i osod hanes Noa yn nilyniant y Beibl. Dangoswch i'r plant sut i ddod o hyd i hanes Noa mewn Beibl cyffredin a gofynnwch iddynt ddod o hyd i'r gair 'enfys'.

Cadarnhau'r stori

Gêm: Ydy'r glaw wedi peidio? Gawn ni fynd allan?

Bydd angen 4 cerdyn – dau yn dangos tic (✓) a dau yn dangos croes (X) – wyneb i lawr ar y bwrdd fel na all y plant wybod beth sydd arnynt.

Yn eu tro bydd y plant yn gofyn y cwestiwn, 'Ydy'r glaw wedi peidio? Gawn ni fynd allan?' a chodi cerdyn. O ddewis tic yna bydd y plentyn yn casglu pwynt. Bydd angen cymysgu'r cardiau wedi pob tro. Chwaraewch y gêm fel bod pawb yn cael dau neu dri chynnig.

Dangoswch lun y golomen sydd ar dudalen 22 yn y Beibl Gweithgaredd ac eglurwch sut y cafodd Noa a'i deulu wybod fod y glaw wedi peidio. Wedi gadael yr arch gwelsant enfys hardd.

Cân

Canwch y pennill bach yma sy'n disgrifio lliwiau'r Enfys (Tôn 'I can sing a rainbow')

'Coch a melyn a phinc a gwyrdd,
Oren a phorffor a glas,
Dyma liwiau'r enfys,
Lliwiau'r enfys,
Lliwiau'r enfys hardd'.

Cymhwyso

Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw, neu eu rhieni, wedi prynu cofrodd (souvenir) i'w hatgoffa o le arbennig neu ddigwyddiad.

Dangoswch gofrodion o'ch eiddo ac eglurwch beth y maent yn eich atgoffa ohono.

Eglurwch fod Duw wedi rhoi'r enfys i atgoffa pobl y byd o'i addewid na fyddai'n dinistrio'r ddaear gyda llif eto.

Trafodwch beth yw addewid. A yw'r plant yn addo gwneud pethau i'w rhieni neu i'w ffrindiau? A ydyn nhw'n cadw at eu haddewidion?

Dysgu adnod

'Yr wyf yn llawenhau oherwydd dy addewid,' (Salm 119: 162)

'Y mae'r Arglwydd wedi cyflawni yr addewid a wnaeth', (2 Cronicle 6.10).

Bydd angen pêl neu fag ffa.

Ail adroddwch yr adnod nifer o weithiau nes y bydd y plant wedi ymglyfarwyddo â'r adnod.

Rhannwch y plant yn 2 dîm a gosodwch hwy i eistedd neu sefyll yn wynebu ei gilydd. Bydd y person cyntaf yn dal y bêl ac yn dweud y gair cyntaf (Yr) ac yna yn taflu'r bêl at berson yn y tîm arall. Rhaid i hwnnw neu honno ddweud y gair cyntaf a'r gair nesaf (Yr wyf) cyn taflu'r bêl at berson arall a fydd yn dweud tri gair cyntaf yr adnod cyn taflu'r bêl at berson arall. Bydd angen cynorthwyo unrhyw berson sy'n cael trafferth i gofio'r adnod. Wedi llwyddo i ddweud yr holl frawddeg, dechreuwch eto gan geisio cyflymu'r broses yr ail dro.

Gweddi

Defnyddiwch dau o liwiau'r enfys i gynorthwyo'r plant i weddio – lliw coch a lliw gwyrdd.

Mae lliw coch yn cynrychioli perygl, felly bydd y dosbarth yn awgrymu pobl sydd mewn perygl ac yn gweddio drostynt.

Byddwn yn dweud weithiau fod person yn troi yn wyrdd pan mae'n teimlo'n sâl, felly arweiniwch y plant i weddio dros bawb sy'n wael.

Adnoddau Ychwanegol

Taflenni gwefan amserbeibl.org
Cyfres A – Noa

Cyfres DVD Stori Duw
Stori 3: Noa a'r Dilyw Mawr

Cwis a Chwilair
Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 264

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant
Cyflwyniad 3 Glaw, Glaw, Glaw

Llyfrau Stori
Tyrd i mewn i'r arch gyda Noa 1.95
Arch Noa 2.50
I mewn i'r arch a nhw 1.25
Noa a'i Long Enfawr 7.99
Noa a'r Anifeiliaid 7.99
Pos Llawr Anferth Noa 8.99

